

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Oxford Road, Y Gelli
Gandryll

Dyddiad yr arolygiad: 07 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi: 07 Ionawr 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Oxford Road, Y Gelli Gandryll ar 07 Hydref 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod y staff yn MyDentist, Oxford Road, Y Gelli Gandryll yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Roedd y practis yn cynnal digwyddiadau blynyddol i blant ysgol lleol i hybu hylendid deintyddol, a oedd yn enghraifft o arfer da.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu rhagor o wybodaeth i hybu iechyd y geg ac iechyd cyffredinol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol a chroesawgar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd darpariaeth dda yn cael ei gwneud i gleifion ag anghenion gwahanol
- Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n effeithlon. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac roeddem o'r farn bod hyn yn arfer dda.

Roedd cofnodion y cleifion o safon arbennig o uchel, gyda gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n drylwyr ac yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol

- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel ac roedd yn cael ei chefnogi'n dda gan y grŵp corfforaethol.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli'r practis yn effeithiol, gyda chymorth gan y grŵp corfforaethol ehangach
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff
- Tîm o staff sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion i holiadur AGIC yn gadarnhaol iawn. Roedd y cleifion yn fodlon â'r gallu i gael apwyntiadau, glendid y practis a safon gyffredinol y gofal a ddarperir.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

" Rhagorol. Dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau, yn gyffredinol rwy'n gallu trefnu apwyntiad pan fo angen apwyntiad arna i. Mae'r gwaith adnewyddu a wnaed yn hyfryd."

" Roedd y staff yn neis ac yn gyfeillgar iawn. Rwyf bob amser wedi cael croeso cynnes iawn."

" Staff cyfeillgar a gofal trylwyr."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hyrwyddo iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth o daflenni a phosteri yn ardal y dderbynfa yn hyrwyddo'r triniaethau sydd ar gael yn y practis. Gwnaethom sôn y gellid cynnig rhagor o wybodaeth hybu iechyd, fel gwybodaeth am fwyta'n iach a lleihau faint o alcohol a yfir.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd y geg ac iechyd cyffredinol ar gael i'r cleifion.

Disgrifiodd rheolwr y practis sut roedd y practis yn gweithio gydag ysgolion lleol i hyrwyddo hylendid deintyddol da drwy ddigwyddiad blynyddol i ddisgyblion ysgol ym Mlwyddyn 1. Gwelsom luniau o'r digwyddiad diweddaraf, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau i nodi bwydydd sy'n llawn siwgr, dysgu technegau brwsio dannedd a deall pwysigrwydd hylendid deintyddol. Roedd hyn yn enghraifft o arfer da yn ein barn ni.

Roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis ac yn cael eu rhoi i gleifion newydd. Nodwyd gennym nad oedd copïau o'r daflen wybodaeth i

gleifion ar gael yn hwylus yn y dderbynfa, ond ymdriniwyd â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad, a chafodd copïau eu hargraffu.

Roedd arwyddion ‘dim smygu na fepio’ yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd y cleifion. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn ardal y dderbynfa er mwyn gwella lefelau preifatrwydd, a dywedodd y staff wrthym y gellid defnyddio ystafell ar wahân pe byddai'r cleifion am gael trafodaeth breifat.

Roedd sgrin breifatrwydd wedi'i gosod ar fonitor cyfrifiadur wrth ddesg y dderbynfa er mwyn sicrhau na allai cleifion a oedd yn cerdded heibio i'r ddesg weld gwybodaeth gyfrinachol.

Roedd prisiau triniaethau i'w gweld yn glir i gleifion ar bosteri yn y dderbynfa. Gwelwyd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd.

Roedd naw egwyddor foesegol cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanesion meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym y byddai staff y dderbynfa yn cael gwybod am unrhyw achosion o oedi i driniaethau ar lafar neu drwy negeseuon uniongyrchol, ac y byddai staff y dderbynfa yn cyfleu'r wybodaeth honno ar lafar i'r cleifion. Byddai'r cleifion yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu eu hapwyntiad pe bai angen iddynt wneud hynny.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ddyddiol a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion.

Byddai galwadau gan gleifion a oedd yn ffonio'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael eu hailgyfeirio at aelod o'r staff, a fyddai'n asesu difrifoldeb y sefyllfa ac yn trefnu apwyntiad â'r deintydd ar alwad yn ôl yr angen.

Dywedodd pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn ar gael i'r staff pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Roedd staff y practis yn siarad amrywiaeth o ieithoedd ac roedd staff y dderbynfa yn gallu darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ar gais.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a nodweddion gwarchodedig perthnasol.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol neu anneuaidd yn cael eu trin â pharch.

Gwelsom fod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd mynediad gwastad o'r maes parcio, ac roedd yr holl ardaloedd clinigol ar y llawr gwaelod â mynediad gwastad i bob ardal. Nid oedd y toiled i gleifion yn hygyrch yn benodol i gadair olwyn, ond roedd handlen gydio ar gael. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cynnwys nodiadau i dynnu sylw'r staff at gleifion anabl neu gleifion y byddai angen cymorth arnynt.

Roedd amrywiaeth o addasiadau wedi cael eu gwneud yn ardal y dderbynfa i helpu'r cleifion, gan gynnwys cadeiriau â breichiau i helpu'r rheini ag anawsterau symudedd, dolen sain i helpu cleifion ag anawsterau clywed a chwyddwydr i helpu'r rhai ag amhariad ar eu golwg. Roedd deunyddiau print mawr yn gallu cael eu hargraffu ar gais.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd gwaith adnewyddu diweddar yn amlwg ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion. Roedd y safle yn lân ac yn daclus yr olwg, ac nid oedd unrhyw annibendod.

Roedd polisi lechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, wedi'i ategu gan asesiadau risg. Gwelsom gofnodion yn dangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal i fonitro cyflwr y safle a'r cyfarpar. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw broblemau a nodir yn cael eu cofnodi a'u hanfon at dîm cyfleusterau canolog er mwyn gallu gweithredu arnynt. Roedd trefniadau priodol ar gyfer ymdrin â deunyddiau o dan y gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) a'u storio.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad cyfredol wedi'i gwblhau ar gyflwr y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd gan y practis Gynllun Parhad Busnes cynhwysfawr a chyfredol, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau priodol a threfniadau glanhau effeithiol.

Fel rhan o'r gwaith adnewyddu diweddar, roedd y practis wedi neilltuo ystafell ddynodedig ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwelsom fod mesurau cadarn a diogel ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu meddyginiaethau.

Roedd gweithdrefnau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff. Roedd bin gwastraff clinigol yn cael ei storio'n allanol, a oedd wedi'i gloi a'i atodi'n sownd at yr adeilad er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith, a oedd ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd polisi ar gyfer cleifion nad oedd rhywun wedi dod â nhw i'w hapwyntiad ('*was not brought*') ar waith ac roedd siartiau llif ar gael i'r staff gyfeirio atynt yn gyflym. Darparwyd enghraifft lle roedd y staff wedi nodi problem diogelu posibl ac wedi cymryd camau priodol, gan ddangos fod gan y staff ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau.

Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu. Nodwyd gennym fod ganddi hyfforddiant hyd at lefel dau a gwnaethom ei hysbysu y dylai arweinwyr diogelu fod wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel tri. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith. Cafodd yr hyfforddiant priodol ei gwblhau a darparwyd tystysgrifau i AGIC o fewn 24 awr i'r arolygiad.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar.

Nodwyd gennym fod un dystysgrif ar gyfer profion ar gynwysyddion gwasgedd yn gyfredol ond roedd yn ymddangos bod gwall bach o ran y dyddiad ar gyfer profion pellach. Ymchwiliwyd i'r mater hwn a chafodd ei unioni ar unwaith, a chafwyd tystysgrif wedi'i chywiro gan y corff profi.

Roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd wedi'i chwblhau'n dda yn y practis, ac roedd stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y clinigwyr yn cael cymorth da gan y grŵp corfforaethol a gwelsom dystiolaeth o ganllawiau a chynghor proffesiynol yn cael eu dilyn.

Dywedodd y staff wrthym fod gwaith adolygu cymheiriaid yn cael ei gynnal rhwng practisau o fewn y grŵp, gyda'r arweinwyr clinigol yn rhoi cynghor ac arweiniad.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deg claf a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal yn dda. Gwelsom dystiolaeth fod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd trylwyr, cynhwysfawr a chyson. Roedd hyn yn cynnwys siartiau sylfaenol, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal ac archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, a phrofion sgrinio am ganser.

Roedd defnydd effeithiol o systemau electronig, er enghraifft drwy ddefnyddio tudalen a rennir i gofnodi atgyfeiriadau canser y geg.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd rheolwr practis effeithiol, wedi'i chefnogi gan y grŵp corfforaethol. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyfarfodydd un i un, arfarniadau a chynlluniau datblygiad personol rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff wedi llofnodi a dyddio'r polisiau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd rhai o'r gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal gan y practis a rhai gan y grŵp corfforaethol. Roedd rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio, a oedd yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal.

Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Pe bai angen staff cyflenwi, byddai staff o bractisau eraill y grŵp corfforaethol yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn sicrhau bod y gwiriadau a'r hyfforddiant priodol wedi'u cynnal a'u cwblhau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Roedd cydymffurfiaeth dda iawn â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Roedd hyfforddiant ar gael i'r staff drwy gymorth gan y grŵp corfforaethol, ac roedd datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei annog.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y gwasanaeth yn gwneud ymdrech benodol i gasglu adborth gan gleifion, gyda dolen yn cael ei hanfon at gleifion ar ôl eu hapwyntiad er mwyn iddynt gwblhau arolwg ar-lein. Roedd codau QR a oedd yn cael eu harddangos yn y practis yn annog y cleifion i adael adolygiadau ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd blwch awgrymiadau a deunyddiau ysgrifennu hefyd wedi'u darparu wrth ddesg y dderbynfa.

Nid oedd unrhyw ddull ar waith i nodi'r camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth, fel poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried sut i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r cleifion er mwyn rhoi gwybod bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn ymateb i'w hadborth.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried sut i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r cleifion er mwyn rhoi gwybod bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn ymateb i'w hadborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, gyda phoster yn cael ei arddangos yn amlinellu'r broses i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent hefyd yn rhoi copi o'r weithdrefn ar gais. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen. Roedd yn cynnwys cyfeiriad at AGIC; fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen cywiro'r manylion cyswllt. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith a rhoddwyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r weithdrefn ar waith yn ystod yr arolygiad.

Roedd cwynion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a dywedodd y staff wrthym fod unrhyw faterion neu dueddiadau yn cael eu nodi. Roedd unrhyw gamau a gymerwyd a gwersi a ddysgwyd o gwynion yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd staff fel arfer. At hynny, roedd tîm o fewn y grŵp corfforaethol yn adolygu cwynion yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod amrywiaeth dda o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys iechyd a diogelwch, rhagnodi gwrthfotigau, gwastraff gofal iechyd a chadw cofnodion.

Disgrifiodd y staff weithdrefnau priodol i ymdrin â digwyddiadau o bwys ac i roi gwybod i gyrff allanol yn ôl yr angen. Darparwyd enghraifft dda lle cafodd digwyddiad yn y practis ei adolygu, gan nodi gwelliannau i'r safle er mwyn gallu ymateb mewn ffordd fwy effeithiol, a sut roedd y gwelliannau hyn wedi cael eu rhoi ar waith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu. Nodwyd gennym fod ganddi hyfforddiant hyd at lefel dau a gwnaethom ei hysbysu y dylai arweinwyr diogelu fod wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel tri.	Dylai arweinwyr diogelu fod wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu hamddiffyn mewn ffordd addas.	Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith. Cafodd yr hyfforddiant priodol ei gwblhau a darparwyd tystysgrifau i AGIC o fewn 24 awr i'r arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Oxford Road, Y Gelli Gandryll

Dyddiad yr arolygiad: 07 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch nac unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Oxford Road, Y Gelli Gandryll

Dyddiad yr arolygiad: 07 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dylai fod mwy o wybodaeth ar gael i'r cleifion am hybu iechyd	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd y geg ac iechyd cyffredinol ar gael i'r cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 13	Mae taflenni am gyngor deietegol, hylendid y geg a rhoi'r gorau i smygu bellach ar gael	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
2. Nid oedd unrhyw ddull ar waith i nodi'r camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried sut i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r cleifion er mwyn rhoi gwybod bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn ymateb i'w hadborth.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 16	Mae poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi cael ei gyflwyno yn yr ardal aros i gleifion	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alison Price / Sarah-Jane Davies

Teitl swydd: Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio

Dyddiad: 03/11/2025